CYHOEDDIAD

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU 2016-18: Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru

Amlinellir ein hymrwymiad i fod yn llywodraeth agored yn ein cyfraniad at Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Rhagfyr 2017

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 7 Rhagfyr 2017

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Cynllun data agored

Gwasanaeth data agored

StatsCymru

Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Protocol Cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

GOV.CYMRU

Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Dangosyddion Cenedlaethol Cymru

Dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Trydydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU ym mis Mai 2016. Nododd y cynllun hwn ymrwymiadau i lywodraeth agored yn y DU ac uchelgeisiau Llywodraeth y DU ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r fersiwn hon o Drydydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored sydd wedi'i diweddaru yn cynnwys ymrwymiadau newydd gan bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig: Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban. Mae hyn yn dangos ein bod ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw.

Rydym oll yn credu bod llywodraeth agored yn well llywodraeth:

- mwy atebol ac ymatebol i bobl
- yn barod i dderbyn syniadau newydd ac mewn sefyllfa well i'w rhoi ar waith
- yn y sefyllfa orau i fanteisio ar dalentau, arbenigedd ac egni dinasyddion, cymdeithas sifil a busnesau i greu cymdeithas well a mwy cadarn i bawb

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei gyd-greu ag aelodau o gymdeithas sifil a dinasyddion gweithredol, wedi'u cydlynu drwy ein rhwydweithiau llywodraeth agored. Rydym yn ymrwymedig i barhau i weithio gyda chymdeithas sifil i weithredu a datblygu ymrwymiadau yn y dyfodol.

# Ymrwymiad 1: Cynllun data agored

> “ Datblygu cynllun data agored i Lywodraeth Cymru a'i roi ar waith a gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymiadau a amlinellir yn y cynllun. ”

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Amcan

Datblygu cynllun sy’n amlinellu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i ddata agored a gwella ymwybyddiaeth o ddata agored ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

## Y sefyllfa fel y mae

O fewn Llywodraeth Cymru rydym eisoes yn ymdrechu i wneud ein data yn fwy hygyrch drwy wefannau megis Lle a StatsCymru. Fodd bynnag, mae rhagor y gellir ei wneud i sicrhau bod ein data yn fwy agored a thryloyw.

Mae angen hefyd am fod yn fwy ymwybodol o’r cyfleoedd a’r manteision posibl y gall data agored eu cynnig i bobl Cymru, busnesau, y sector gwasanaeth cyhoeddus a Llywodraeth Cymru. Drwy roi ein Cynllun Data Agored a’i ymrwymiadau ar waith dylid helpu i fynd i’r afael â’r materion hyn.

## Uchelgais

Er bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo ym maes data agored o fewn Llywodraeth Cymru gobeithiwn, drwy roi’r Cynllun Data Agored hwn ar waith, y byddwn yn codi ymwybyddiaeth, yn atgyfnerthu gwaith sy’n mynd rhagddo a dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddata agored. Ein gobaith yw y bydd y cynllun yn rhoi cyfle ymarferol i weithio gyda sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a’u hannog i gynyddu faint o ddata agored y maent yn eu cyhoeddi ac yn eu defnyddio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2016 – Mawrth 2018

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd a pharhaus

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

-

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Gweithredu ymrwymiadau a amlinellir yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru | Newydd a pharhaus | Mawrth 2016 | Mawrth 2018 |

## Ymrwymiad 2: Gwasanaeth data agored

> “ Datblygu Gwasanaeth Data Agored i Gymru gyda ffocws ar helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus. ”

### Amcan

Sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn fwy agored a chynyddu faint o ddata am Gymru a gyhoeddir ganddynt.

### Y sefyllfa fel y mae

Dim ond is-set o ddata am Gymru a ddelir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a gyhoeddir ar hyn o bryd.

### Uchelgais

Bydd datblygu Gwasanaeth Data Agored i Gymru yn sicrhau bod y data a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Nghymru yn fwy hygyrch a'u bod yn cyhoeddi mwy o ddata. At hynny, drwy sicrhau bod data ar gael yn fwy agored y gobaith yw y bydd hynny'n help i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2016 – Mawrth 2017

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth, Technoleg ac arloesed

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Parhaus

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Menter Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi data i Gymru, y gall rhai darnau ddod o adrannau eraill o'r llywodraeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Mae defnyddwyr wedi bod yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu gwefan StatsCymru, e.e. rhoi adborth, a chael y wybodaeth ddiweddaraf mewn fforymau amrywiol i ddefnyddwyr. Mae hyn wedi cynnwys ein grŵp defnyddwyr sy'n cwmpasu'r trydydd sector.

Rydym yn gweithio er mwyn caniatáu i bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus gyhoeddi drwy StatsCymru o dan eu logo eu hunain. Hyd yma, dim ond Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi gwneud hynny.

| **Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad** | **Ymrwymiad newydd neu barhaus** | **Dyddiad dechrau** | **Dyddiad gorffen** |
|---|---|---|---|
| Mae data StatsCymru yn cael eu cyhoeddi ar ffurf y gall peiriant ei darllen | Parhaus | Mehefin 2016 | Parhaus |
| Mae deunydd hyfforddiant StatsCymru ar welliannau'n cael ei baratoi a'i gyflwyno | Newydd | Tachwedd 2016 | Rhagfyr 2017 |
| Lle wedi ei ddatblygu i alluogi defnyddwyr i greu eu mapiau eu hunain | Parhaus | Ionawr 2016 | Ionawr 2017 |
| Mae catalog o ddata agored yn cael ei baratoi | Parhaus | Hydref 2016 | Rhagfyr 2016 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ymrwymiad 3: StatsCymru

> “ Datblygu StatsCymru, sef ystorfa ar-lein Llywodraeth Cymru ar gyfer data ystadegol manwl, er mwyn codi ei statws bod yn agored i 4*. ”

## Amcan

Sicrhau bod y data strwythuredig a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn fwy agored a chynyddu faint o ddata strwythuredig a gyhoeddir ganddynt.

## Y sefyllfa fel y mae

Dim ond is-set o ddata am Gymru a ddelir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a gyhoeddir ar hyn o bryd. Er bod StatsCymru yn cyhoeddi data strwythuredig yn agored mae angen cynyddu ei statws bod yn agored.

## Uchelgais

Drwy’r ymrwymiad hwn byddwn yn gwneud y data a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn fwy agored, gan ei gwneud yn bosibl i’n data gael eu rhannu’n hawdd a’u defnyddio gan eraill.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Amserlen

Mawrth 2016 – Rhagfyr 2017

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth, Technoleg ac Arloesedd

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Menter Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi data i Gymru, y gall rhai darnau ddod o adrannau eraill o'r llywodraeth.

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Mae defnyddwyr wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r wefan e.e. rhoi adborth, a chael y wybodaeth ddiweddaraf mewn fforymau amrywiol i ddefnyddwyr. Mae hyn wedi cynnwys ein grŵp defnyddwyr sy'n cwmpasu'r trydydd sector.

Rydym yn gweithio er mwyn caniatáu i bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus gyhoeddi drwy StatsCymru o dan eu logo eu hunain. Hyd yma, dim ond Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi gwneud hynny.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Mae data StatsCymru yn cael eu cyhoeddi ar ffurf y gall peiriant ei darllen | Parhaus | Mehefin 2016 | Parhaus |
| Mae canllawiau a fideos hyfforddiant StatsCymru yn cael eu paratoi a'u cyhoeddus | Newydd | Tachwedd 2016 | Rhagfyr 2016 |
| Caiff StatsCymru ei achredu'n llwyddiannus | Newydd | Medi 2016 | Mawrth 2017 |
| Mae deunydd hyfforddiant StatsCymru yn cael ei baratoi a'i gyflwyno | Newydd | Tachwedd 2016 | Rhagfyr 2017 |

## Ymrwymiad 4: Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

> “ Mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau bod mynediad at setiau data'r llywodraeth ar gael mewn modd diogel at ddibenion ymchwil academaidd a sector cyhoeddus. At hynny, caiff mynediad o'r fath ei hyrwyddo er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o ddata o'r fath at ddibenion ymchwil a gyhoeddir ac sydd ar gael i helpu i wneud penderfyniadau gwell. ”

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Amcan

Sicrhau mynediad moesegol at ddata a ddelir gan y llywodraeth i ymchwilwyr achrededig o'r byd academaidd neu'r sector cyhoeddus mewn amgylcheddau diogel cymeradwy gyda rheolaethau priodol ar waith, gan arwain at ymchwil gyhoeddedig er budd y cyhoedd.

## Y sefyllfa fel y mae

Goresgyn rhwystrau i fynediad at ddata at ddibenion ymchwil academaidd neu sector cyhoeddus.

## Uchelgais

Drwy'r ymrwymiad hwn byddwn yn gwella gwerth cyhoeddus data'r llywodraeth drwy sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio i baratoi ymchwil gyhoeddedig o safon uchel a fydd yn llywio polisïau cyhoeddus a gwella bywydau dinasyddion.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Parhaus

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Awdurdod Ystadegau'r DU

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol – Cymru (partneriaeth academaidd); Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol; Bwrdd y Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi rhagor o ymchwil mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol | Parhaus | Mawrth 2015 | 31/03/17 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Cynyddu nifer setiau data'r sector cyhoeddus sydd ar gael i ymchwilwyr yng Nghymru drwy Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol | Parhaus | Mawrth 2015 | 31/03/17 |
| Treialu technegau i awdurdodau lleol ddarparu data at ddibenion ymchwil yng Nghanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol | Newydd | Medi 2016 | 31/03/17 |

# Ymrwymiad 5: Protocol Cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

> “ Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi ymchwil y llywodraeth yn unol â phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, gan gyhoeddi teitlau adroddiadau ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar dudalennau 'Ystadegau ac Ymchwil' gwefan Llywodraeth Cymru. Mae cyhoeddi adroddiadau ymchwil gymdeithasol yn unol â phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn rhan allweddol o Egwyddorion Ymchwil a Gwerthuso Llywodraeth Cymru. ”

## Amcan

Cyhoeddi ymchwil yn unol â phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Llywodraeth.

## Y sefyllfa fel y mae

Mae protocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth wedi cael ei fabwysiadu i sicrhau bod y dystiolaeth a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn fwy tryloyw.

## Uchelgais

Drwy gyhoeddi ymchwil bydd y dystiolaeth a ddefnyddir gan y Llywodraeth yn ei phenderfyniadau yn cael ei chyhoeddi a hefyd ganfyddiadau ymchwil a fydd yn ddefnyddiol i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector er mwyn llywio eu prosesau gwneud penderfyniadau eu hunain.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Er bod protocol cyhoeddi ymchwil gymdeithasol y llywodraeth wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ers iddo gael ei gyflwyno yn 2010, bu ymrwymiad gan Weinidogion i ddefnyddio’r protocol ers mis Mawrth 2014.

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth, Atebolrwydd cyhoeddus

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Parhaus

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Llywodraeth Cymru

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

-

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Defnyddio protocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar gyfer pob cyhoeddiad ymchwil. | Parhaus | Mawrth 2010 | Parhaus |
| Ymrwymiad Gweinidogion i ddefnyddio protocol cyhoeddi Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth. | Parhaus | Mawrth 2014 | Parhaus |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ymrwymiad 6: GOV.CYMRU

> “ Byddwn yn sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i’n gwybodaeth a’n gwasanaethau drwy gyfuno ein cynnwys digidol ar wefan newydd i Lywodraeth Cymru sy’n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion defnyddwyr. Bydd y wefan yn cynnwys gwell gwasanaeth ymgynghori. ”

## Amcan

Creu GOV.CYMRU newydd er mwyn gwella mynediad at wybodaeth a gwasanaethau Llywodraeth Cymru.

## Y sefyllfa fel y mae

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth ar fwy na 150 o wefannau. Caiff gwybodaeth ei chyflwyno’n anghyson ac weithiau caiff ei dyblygu. Nid yw defnyddwyr yn gwybod a ydynt wedi dod o hyd i holl wybodaeth Llywodraeth Cymru am fater penodol.

## Uchelgais

Bydd GOV.WALES yn cynnwys bron holl wybodaeth a gwasanaethau Llywodraeth Cymru, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall yr hyn a wnawn a pha mor dda rydym yn perfformio. Bydd yn rhoi darlun cliriach o’r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau mwy o atebolrwydd drwy ganiatáu i’r cyhoedd weld a chyrchu’r cyrff hynny sy’n gweithio ar eu rhan. Bydd y gwasanaeth ymgynghori newydd yn cynnig ffordd well i’r cyhoedd gymryd rhan yn ein proses gwneud penderfyniadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

1 Ebrill 2015 – 30 Mehefin 2019

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth, Cyfranogiad dinesig, Atebolrwydd cyhoeddus

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

-

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Mae dinasyddion Cymru yn cymryd rhan yn y broses o brofi'r wefan.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Lansio gwasanaeth ymgynghori beta, gan gynnwys ffurflenni ymateb y gall defnyddwyr eu cadw | Newydd | 01/07/16 | 30/09/16 |
| Lansio llwyfan beta i ymgyrchoedd | Newydd | 01/10/16 | 30/11/16 |
| Lansio llwyfan beta i gyrff cyhoeddus | Newydd | 01/01/17 | 31/03/17 |
| Cyhoeddi'r tranche cyntaf o gynnwys corfforaethol beta | Newydd | 01/10/16 | 30/04/17 |
| Cyhoeddi gweddill y cynnwys corfforaethol | Newydd | 01/05/17 | 30/06/19 |

# Ymrwymiad 7: Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

> “ Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cod ar gyfer ymddygiad moesegol mewn cadwyni cyflenwi, a fydd yn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gamau gweithredu i liniaru problemau moesegol mewn cadwyn cyflenwi. ”

## Amcan

Sicrhau bod niferoedd mawr yn ymrwymo i'r 12 ymrwymiad sydd wedi'u hanelu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

at hyrwyddo trin gweithwyr yn gyfreithiol ac yn foesegol.

## Y sefyllfa fel y mae

Trin gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn anfoesegol ac yn anghyfreithlon.

## Uchelgais

Un o uchelgeisiau'r darn hwn o waith yw codi ymwybyddiaeth o achosion o gaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi a chymryd camau i fynd i'r afael â meysydd risg uchel.

Uchelgais arall yw sicrhau mwy o degwch i bawb yng Nghymru fel na chaiff cyflenwyr sydd am gyflogi gweithwyr yn foesegol eu rhoi o dan anfantais wrth ymgynnig am gontractau cyhoeddus.

Uchelgais arall yw annog mwy o gyflogwyr i fabwysiadu Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw (sy'n seiliedig ar gostau byw).

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2016 – dechrau 2017

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Atebolrwydd cyhoeddus

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Busnesau a sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Y drafft cyntaf wedi'i gwblhau a'i gyflwyno yn Procurex | Newydd | Mawrth 2016 | Medi 2016 |
| Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu a'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu | Newydd | Hydref 2016 | Tachwedd 2016 |
| Ymgysylltu â'r sector busnes a'r trydydd | Newydd | Hydref | Dechrau |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| sector | | 2016 | 2017 |
| Lansio cod ar gyfer ymddygiad moesegol mewn cadwyni cyflenwi | Newydd | Dechrau 2017 | Dechrau 2017 |
| Cymeradwyo | Newydd | Parhaus | Parhaus |

# Ymrwymiad 8: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Dangosyddion Cenedlaethol Cymru

> " Mesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyflwyno adroddiad blynyddol arnynt. "

## Amcan

Er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol i fesur cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth wneud hynny mae'r Dangosyddion Cenedlaethol a'r data sy'n sail iddynt yn cael eu datblygu a'u cyfleu mewn modd agored a thryloyw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Y sefyllfa fel y mae

Mesur cynnydd cenedlaethol yn erbyn y saith nod llesiant i Gymru, a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Uchelgais

Er mwyn inni gyflawni’r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 gyda’n gilydd, mae angen inni gael ffordd o fesur pa gynnydd sy’n cael ei wneud ar lefel genedlaethol. Bwriedir i’r 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol Cymru fesur cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant ac maent wedi’u paratoi ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. Caiff adroddiad arnynt ei gyhoeddi bob blwyddyn drwy ‘Adroddiad Llesiant Cymru’.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Mawrth 2016 – dechrau 2017

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Mynediad at wybodaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Newydd

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Cyrff cyhoeddus penodedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Gosod 'Dangosyddion Cenedlaethol Cymru' gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Parhaus | Ebrill 2015 | Mawrth 2016 |
| Paratoi'r Adroddiad Llesiant Blynyddol cyntaf i Gymru | Parhaus | Ebrill 2016 | Haf 2017 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ymrwymiad 9: Dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru

> " Mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a chymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn. "

## Amcan

Ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud pethau i hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy; ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiadau ar gamau gweithredu o'r fath.

## Y sefyllfa fel y mae

Ffordd fwy cyson drwy'r sector cyhoeddus cyfan o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar lesiant Cymru.

## Uchelgais

Bydd yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodedig i ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Sefydliad gweithredu arweiniol

Llywodraeth Cymru

## Amserlen

Ebrill 2016 ymlaen

## Gwerthoedd y Bartneriaeth Llywodraeth Agored

Cyfranogiad dinesig

## Ymrwymiad newydd neu barhaus

Ymrwymiad cyfreithiol newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Eraill sydd ynghlwm: Y Llywodraeth

Y 43 o gyrff cyhoeddus a bennwyd o dan y Ddeddf, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Eraill sydd ynghlwm: Sefydliadau cymdeithas sifil, y sector preifat, gweithgorau, cyrff amlochrog ac ati

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Cerrig milltir y gellir eu cadarnhau a'u mesur i gyflawni'r ymrwymiad | Ymrwymiad newydd neu barhaus | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|
| Y ddyletswydd gyfreithiol yn dod i rym | Ymrwymiad cyfreithiol newydd | Ebrill 2016 | Ebrill 2016 |
| Cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf. | Newydd | Ebrill 2016 | Ebrill 2017 |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Asesiad o lesiant lleol | Newydd | Ebrill 2016 | Mai 2017 |

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymiadau-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.